

## *Llyfrau newydd*





Argraffiad maint poced o'r Testament Newydd a'r Salmau (fersiwn diwygiedig, 2004); fersiwn anrheg (gwyn) hefyd ar gael.
Pris: £11.99; fersiwn anrheg £12.99




Beibl lliw newydd ar gyfer plant 5–8 oed.
Pris: £11.99




Casgliad gwerthfawr o gant o wasanaethau yn seiliedig ar y llyfr emynau *Caneuon Ffydd*.
Pris: £11.99




Cyfrol swmpus o wasanaethau ar gyfer pob achlysur gan y Parch. John Lewis Jones
Pris £13.99

**_Swyddogion yr Ofalaeth_**

*Cadeirydd*: T. Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog, Aberystwyth, SY23 3JA (01970 880859)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 7 Mehefin:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com

Tabell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babel

Cyfres newydd, rhif 7 — Gwanwyn 2009



*Am Oen Duw y meddyliais*
*Yn myned i Galfarî*

Annwyl ffrindiau,


Hwyrddydd o Ebrill ydoedd,  
Ebrill â'i awel fwyn;  
Ac ar y ffordd y defaid  
Âi heibio gyda'u hŵyn.

Y defaid a'u hŵyn âi heibio  
I fyny am Fwlch y Llyw.  
Hwyrddydd o Ebrill ydoedd;  
Meddyliais am Oen Duw.

*Katherine Tynan Hinkson*  
cyf. *Cynan*

Byddwn wrth fy modd yn adrodd y gerdd 'Defaid ac Ŵyn' mewn eisteddfodau pan oeddwn yn blentyn. Cystal i mi gyfaddef na ddeallwn wir ystyr ac arwyddocâd y geiriau bryd hynny, ond bellach daeth y teitl 'Oen Duw' am yr Arglwydd Iesu i olygu rhywbeth annwyl a defosiynol, yn arbennig felly yng nghyswllt gweinyddu a chyfranogi o Sacrament Swper yr Arglwydd. Ioan Fedyddiwr oedd yr un a gyfeiriodd at Iesu fel 'Oen Duw'. Meddai, wrth ei weld yn dod tuag ato, 'Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd.' (Ioan 1:29) Mae'n siŵr mai am oen y Pasg y meddyliai Ioan ar y pryd. Cofiwn mai gwaed yr oen aberthol ar byst a chapan drws y tŷ oedd wedi diogelu cartrefi'r Israeliaid, a'u gwaredu o'r Aifft, rhag dinistr a marwolaeth (Exodus 12:11–13). Diau fod y darlun o'r oen ym mhroffwydoliaeth Eseia hefyd ym meddwl Ioan, ac yn arbennig un o Ganeuon y Gwas Dioddefus am yr oen a arweiniwyd i'r lladdfa (Eseia 53:7). Ydy, mae'r 'Agnus Dei' yn deitl hynod o drawiadol a gafaelgar, ac yn symbol o gariad, aberth, dioddefaint a buddugoliaeth Crist.

Wrth i mi ysgrifennu'r anerchiad hwn, ni allaf lai na sylweddoli bod Sul y Blodau a chychwyn yr Wythnos Fawr o fewn cyrraedd. Y mae mis Ebrill ar y trothwy a naws y gwanwyn yn y tir. Gwelir arwyddion o ddeffroad natur ar bob llaw wedi trwmgwsg hir y gaeaf. Y mae'r defaid a'u hŵyn wedi cychwyn eleni eto 'i fyny am Fwlch y Llyw' a chyn bo hir byddwn yn dathlu Gŵyl y Pasg. Cofiwn, yn y cyswllt hwn, pa mor daer yr oedd yr Iesu ei Hun i gael bwyta gwledd y Pasg gyda'i ddisgyblion cyn iddo ddioddef (Luc 22:15), a phrif fwyd y wledd fyddai oen wedi'i aberthu yng nghyffiniau'r deml. Y mae'n amlwg felly mai o fewn cyd-destun gwledd y Pasg y cynhaliwyd y Swper Olaf ac i'r Iesu sylweddoli y câi yntau hefyd ei ladd yn y man. Am hynny, yr oedd yn awyddus i'w ddisgyblion weld ei farwolaeth fel gwaredigaeth, yn union fel y waredigaeth o'r Aifft.




Yr hyn sydd wedi bod yn fodd i gadarnhau'r ddamcaniaeth yn ystod y degawdau diwethaf yw'r firws AIDS, sy'n epilio'n gyflym iawn ac felly mae hi wedi bod yn bosibl gweld newidiadau esblygiadol yn digwydd o dan y meicrosgop. Fel y dywed Steve Jones: "Mae hanes firws AIDS, cynnyrch mwyaf newydd natur a'r lleiaf o ran ei faint, bron yn gyfan, a hanes y morfil – yr anifail mwyaf i'w weld erioed – yn dameidiog, ond maen nhw'n gefndryd dan y croen. Gellir gweld y newid yn firws AIDS dan feicrosgop; yr un yw proses y morfil ond yn cael ei gweld dros oesoedd hir drwy delesgop biolegol."

Bu llawer o gamddealltwriaeth a chamddefnyddio ar waith Darwin. Nid 'trechaf treisied, gwannaf gwichied' yw ystyr dethol naturiol, yn hytrach ei hanfod yw mai tras y bodolyn sy'n goroesi ac yn epilio – yr epilio sy'n bwysig – fydd yn parhau. Yng ngeiriau Steve Jones: "Mae dethol naturiol yn syml. Nid ffafrio harddwch, neu nerth, neu ffyrnigrwydd mae natur; y cyfan y mae'n ei wneud yw hyrwyddo'r rhai hynny sy'n gallu epilio orau."

Doedd gan Darwin, a does gan Steve Jones, ddim amynedd at yr "ymdrechion plentynnaidd" (geiriau SJ) a gafwyd i gymhwyso damcaniaeth dethol naturiol yn yr ystyr "trechaf treisied" at ddatblygiad cymdeithas, Darwiniaeth gymdeithasol fel y'i gelwid. Does dim honiad chwaith bod esblygiad a dethol naturiol yn ateb pob cwestiwn ynghylch yr hyn ydyn ni. "Dweud wrthym ein bod ni wedi esblygu mae bioleg; mae'r hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol, ar y cyfan, y tu hwnt iddo" yw geiriau diymhongar Steve Jones.

I gloi gyda dyfyniad arall o *Almost like a Whale*: "Mae'n bosib profi pob rhan o thesis Darwin. Mae'r cliwiau – o ffosilau, genynnau neu ddaearyddiaeth – yn amrywio ymhob achos, ond o bob un ohonyn nhw daw'r casgliad bod bywyd i gyd yn perthyn i'w gilydd. Nid dim ond honiad yw hyn, ond cadwyn o ddidwytho gyda phob dolen yn gyfan." Mae'r creadyddion (*creationists*) sy'n gwadu'r gwirionedd hwn ac yn mynnu dysgu'r esboniadau cyn-esblygiadol mewn ysgolion yn "dweud celwydd" wrth blant, meddai. Pam anwybyddu gwybodaeth a hyrwyddo anwybodaeth? *Llinos Dafis*

*Ydych chi'n cytuno â Steve Jones? Sut ddylai'r Cristion ymateb i'w ddamcaniaeth? Byddem yn falch o gyhoeddi eich ymatebion yn y rhifyn nesaf. Gol.*

### *Steve Jones a Darwin*

Ym mis Chwefror dathlodd gwyddonwyr ledled y byd ddaucanmlwyddiant geni Charles Darwin. Ganrif a hanner yn ôl, yn ei lyfr *On the Origin of Species by Means of Natural Selection*, cyhoeddodd Darwin ei ddamcaniaeth fod pob rhywogaeth wedi dechrau o'r un ffynhonnell o fywyd ac wedi cyrraedd ei ffurf bresennol drwy broses o esblygu a dethol naturiol, a bod y broses yn parhau. Roedd y Cymro Alfred Russel Wallace wedi dod i'r un casgliad tua'r un pryd, ond Darwin ysgrifennodd y llyfr! Byth oddi ar hynny Esblygiad a Dethol Naturiol yw geiriau allweddol bioleg.



Yn 1999, i gyd-fynd â'r mileniwm, cyhoeddodd y genetegydd Steve Jones lyfr dan y teitl *Almost Like a Whale*, sy'n ail-ddatgan damcaniaeth Darwin ac yn diweddaru yr hyn a ŵyr y lleygwr amdani yng ngoleuni'r wybodaeth a'r technegau gwyddonol newydd, megis meicrosgopeg, a ddatblygodd oddi ar 1859. Yn ei farn ef, yr *Origin of Species* oedd llyfr y Mileniwm, "heb unrhyw amheuaeth". Lawn mor bwysig i ni, o ran geneteg, yw bod hanner gwreiddiau Steve Jones yn gadarn yng Nghapel y Garn – roedd ei dad-cu o ochr ei fam – John Morgan, Bodhywel – yn fab i fferm Pwll-glas, yn frawd i Arthur Morgan, tad Nest Davies. Mae Steve Jones felly'n or-or-ŵyr i William Morgan, un o weinidogion cyntaf Capel y Garn (tua 1871–1915), ac yn gyfyrder i Lowri, Fron-ddêl.

I uno yn y dathliad, er ychydig yn hwyr, dyma roi cip ar beth o'r hyn sydd gan Steve Jones i'w ddweud. Ei fwriad, meddai, yw cyflwyno dadl "a fydd, rwy'n hyderu, yn darbwyllo fy narllenwyr o wirionedd esblygiad". Gyda'i frwdfrydedd taer ynghylch ei bwnc, ehangder ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth, a'i ffraethineb a'i ysgolheictod yn pefrio drwy'r llyfr, dim ond celain oer allai wrthsefyll ei ymdrech.

Mae pob gwyddonydd bellach yn derbyn gwirionedd canolog yr *Origin,* meddai. Oherwydd arafwch proses esblygu roedd hi'n ambosibl i Darwin gynnig prawf anwadadwy o wirionedd ei ddamcaniaeth ar y pryd. Rhoi sail newydd ar gyfer astudio bywyd wnaeth e, nid rhoi darlun cyfan gorffenedig. Roedd Darwin ei hun yn ymwybodol o'r bylchau yn y dystiolaeth. Mae gwyddonwyr eraill dros y ganrif a hanner oddi ar hynny wedi gwneud darganfyddiadau gwerthfawr sydd wedi llenwi aml i dwll, megis Mendel a'i ymchwil i etifeddiaeth, a'r gwaith diweddar ar eneteg. Mae'r darlun yn dal i fod heb ei gyfannu'n llwyr, er hynny.

Ond er bod y darlun o Oen Duw yn myned i Galfarî yn fyw yn ein cof, tybed pa mor arwyddocaol yn ein golwg yw ei ddioddefaint a'i farwolaeth? Mor hawdd yw edrych ar y Groes a theimlo dim. Mor hawdd yw diystyru'r hyn a wnaeth Iesu trosom ar Galfaria, heb ein bod yn sylweddoli pa mor anhraethol fawr oedd yr Iawn a dalwyd yno. Dygodd Iesu faich pechod y byd drwy'i ddioddefaint erchyll a bu farw yn ein lle.

Yr Oen di-fai, yr Oen di-fai –  
O! canwn ei glod ynghyd:  
Yr Oen di-fai, yr Oen di-fai  
Fu farw dros y byd.

*Elfed*

Wedi'r Groglith fe ddaw'r Trydydd Dydd â'i fuddugoliaeth – buddugoliaeth yr Oen ar bechod ac angau. Yn neges y Pasg y mae gobaith i bob un ohonom, gobaith yr 'atgyfodiad i fywyd tragwyddol'. Am bron i ugain canrif bu'r Eglwys yn pregethu efengyl yr Atgyfodiad gan ei chyhoeddi drwy gyfrwng y gair llafar ac ysgrifenedig, yn ei bywyd a'i haddoliad, yn ei hysgrythurau a'i sacramentau ac yn ei chredoau a'i chyffesion ffydd. Er hynny, ni all yr un ohonom haeru bod credu yn yr Atgyfodiad yn beth rhesymol i'w wneud. Cael ein hargyhoeddi yr ydym bob tro. Un o'r disgrifiadau mwyaf grymus o'r argyhoeddi hwnnw yw'r hyn a fynegodd C S Lewis yn ei gyfrol, *Surprised by Joy*. Ac yntau ar y pryd yn Gymrawd yng Ngholeg Magdalen yn Rhydychen, yr oedd yr ysgolhaig a ddaeth yn ddiweddarach yn amddiffynnydd mawr y Ffydd Gristionogol, yn gwrthod credu. Ond cael ei argyhoeddi fu ei hanes. Meddai, 'Deuthum yn ymwybodol o ddynesiad cyson a diwrthdro yr Un yr oeddwn yn taer ddyheu am beidio â'i gyfarfod.' Drwy ffydd, boed i ninnau hefyd ddod wyneb yn wyneb â'r Crist atgyfodedig y Pasg hwn.

'N ôl marw Brenin hedd,  
A'i eiddo i gyd yn brudd,  
A'i roi mewn newydd fedd,  
Cyfodai'r trydydd dydd;  
Boed hyn mewn cof gan Israel Duw  
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.


*John Thomas*

Pasg hapus i chi i gyd.

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas,

Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant




Mae neges yn y Groes yma. Dechreuwch ar y saeth, yna gweithio i fyny a chymerwch am yn ail lythyren i ddod o hyd i'r neges. Fe fydd angen i chi fynd o amgylch y Groes ddwywaith.

**Ysgrifennwch y neges allan ar y llinellau isod.**

__ ____ _ __ ____

______ __ ___________

__ ___ ___'_ __

Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **30 Ebrill**. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.

Llongyfarchiadau i **Rhydian Friswell, Capel Seion**, enillydd y gystadleuaeth.

## *Cymorth i Bosnia*



Bu yna gydweithio i baratoi cywion Pasg i'w gwerthu ar gyfer yr ymgyrch i gefnogi taith Eris Harries i Mostar, Bosnia, fis Ebrill.

Trefnwyd bore coffi hefyd ar ddydd Sadwrn, 21 Mawrth, i dderbyn rhoddion ariannol yn hytrach na'r nwyddau arferol. Erbyn hyn mae'r cyfanswm dros £800.
Diolch am bob cyfraniad



Aethpwyd â thua dwy fil ar bymtheg o stampiau i Oxfam wedi'r Nadolig. Diolch i bawb a ymatebodd i'r apêl am stampiau a hen gardiau Nadolig er budd Coed Cadw.

Shân Hayward (828268)     Bethan Jones (611502)

## Grŵp Help Llaw y Garn

Yn ystod y tri mis a aeth heibio bu'r aelodau yn gwau teganau a dillad lliwgar ar gyfer grŵp o blant bach amddifad, yng nghartref Little Oaks yn Limpodo, yng ngogledd Affrica.



Siwan, merch Shân a Mike Hayward, yw ein dolen gyswllt.

Cartref sydd wedi'i leoli ar fferm afocados ym mryniau Tzaneen yw hwn. Rhoddir sylw arbennig i anghenion corfforol, emosiynol ac ysbrydol y plant, ac maent yn rhan o deulu sy'n rhoi pwyslais ar ofalu a dangos cariad. Dibynna'r cartref yn llwyr ar gyfraniadau gan garedigion ac nid yw'r rhai sy'n gweithio yno yn derbyn unrhyw gyflog.






***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***


### Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 30 Mawrth | Cyfarfod Dosbarth Gogledd Aberteifi<br>Capel y Garn am 7 o'r gloch |
| 7 Ebrill | Gweithgor Ymgynghorol Os Mêts<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 10 Ebrill | Oedfa gymun bore'r Groglith<br>Capel Rehoboth am 10 o'r gloch |
| 12 Ebrill | Oedfa gymun ar Sul y Pasg<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 22 Ebrill | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Tabernacl, Tyddewi, am 2 o'r gloch |
| 10 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>am 10 a 5.30 o'r gloch<br>yng Nghapel Bethel, Aberystwyth<br>Arweinydd: Mrs Carol Davies |
| 17 Mai | Oedfa Cymorth Cristnogol yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am **10.30 o'r gloch**<br>Cinio Bara a Chaws i ddilyn – croeso cynnes i bawb |
| 8 Mehefin | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 7 o'r gloch |
| 28 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul<br>Neuadd Pontrhydfendigaid am 2 o'r gloch<br>yng nghwmni Euros Lewis |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

# Os Mêts





Criw Os Mêts yn
mwynhau cawl,
cyn wynebu cwestiynau
heriol y cwis, dan ofal
Lyn Léwis Dafis



ddyddiol – yn goffi, siwgr, te, siocled, cnau, ffrwythau. Ond er bod y gwledydd hyn mor bwysig ar gyfer ein ffordd o fyw yn y gorllewin, mae'r modd y trefnir masnach ryngwladol yn achosi tlodi aruthrol i filiynau o bobl yn y gwledydd tlotaf.

Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn cyfrannu at y gwresogi byd-eang. Mae John Bell o Gymuned Iona, sy'n gyfarwydd i nifer ohonom am ei gyfraniad i *Thought for the Day*, ychydig yn ôl wedi tynnu sylw at yr anhawster i gael llywodraethau mwya'r byd i gydymffurfio â Chytundeb Kyoto a lleihau nwyon Tŷ Gwydr. Mae'r gwledydd gorllewinol yn ceisio dylanwadu ar eraill fel Tsieina ac India i leihau llygredd. Ond fel y dywed:

> The reasons why their carbon footprint is so high is partly because they are wearing our old shoes.

Ceisiwn esmwytho'r gydwybod drwy hyrwyddo'r syniad o ffeirio'n defnydd o garbon ond, mewn gwirionedd, oni ddylem leihau'n dibyniaeth ar nwyddau materol. Hefyd, drwy fasnachu'n deg, dylem allu dylanwadu i sicrhau bod cyflogau teg yn cael eu talu i gynhyrchwyr a gweithwyr ar draws y byd. Lleihau tlodi, efallai, ond creu galw am nwyddau gan y rheiny a fyddai'n cael gwell cyflog. Ond, mewn gwirionedd, onid ceisio cyfiawnhau ein natur drachwantus ydym ac esmwytho'n cydwybod. Sut ddylen ni ymateb yn ymarferol mewn modd cadarnhaol ac ystyrlon effeithiol?

Pan feddyliwn am yr adroddiad yn Genesis am Dduw'n cyflwyno daear hardd, oludog i ofal dynolryw, buan iawn, wrth feddwl am weithredoedd Efa a Chain, y lledodd hunanoldeb, trachwant, eiddigedd a thrais … ac mae'r gweddill, ysywaeth, "yn hanes".

Mae geiriau'r gân werin 'Mae'r ddaear yn glasu' yn ein hatgoffa o'r etifeddiaeth gyfoethog a'n cyfrifoldebau ninnau:

> Mae'r ddaear fawr ffrwythlon
> A'i thrysor yn ddigon
> I borthi'i thrigolion
> Yn dirion bob dydd;
> Pe byddem ni ddynion
> Mewn cyflwr heddychlon
> Yn caru'n un galon
> Ein gilydd.

*Dewi Hughes*

Hoffwn ddiolch i Dewi am ymateb i'm cais i lunio erthygl ar faterion amgylcheddol o safbwynt dyletswydd y Cristion, ac yn arbennig iddo am ei hir amynedd cyn i'r erthygl weld golau dydd. *Gol.*

## *"MAE'R HOLL FYD YN EI LAW …"*

*Paratowyd yr erthygl hon yn wreiddiol ar gyfer rhifyn Haf 2008 o 'Gair o'r Garn'. Nawr daw cyfle i'w chyhoeddi, a gwneir hynny mewn rhannau dros y rhifynnau nesaf. Noder, felly, fod yr erthygl yn cyfeirio at ddigwyddiadau'r cyfnod hwnnw cyn i'r gyfundrefn ariannol gael ei hysgwyd nag i Barack Obama adlewyrchu gobaith. Felly dyma ran 1…*

Mae'n siŵr eich bod chi, sy'n ieuenctid chwedegau'r ganrif ddiwethaf, yn cofio'r gân uchod yn atseinio yn y cyfnod gwrthdystiol hwnnw. Ond atseinia gwirioneddau sy'n amserol i ni Gristnogion yn negawd gyntaf y mileniwm hwn pan fo trachwant, hunanoldeb a difaterwch yn rheibio'n daear.

Bu i'r gwasanaeth "Cymorth Cristnogol" dan arweiniad ein Bugail, y Parchedig Wyn Morris, ein hatgoffa o'n dyletswydd a'n cyfrifoldeb i'n brodyr, hen ac ifanc, ledled y byd. Serch hynny, mae ymdeimlad o anallu i newid dim yn ein mynych lethu gan droi'n ddiymadferthedd ac yna'n ddifaterwch. Yn ein byd chwim electronig a thechnolegol sy'n cyfannu'r byd ar amrantiad, ymbellhau yr ydym o realiti echrydus sefyllfaoedd ym mhen draw'r byd, gan hawdd diffodd botwm y teledu a chau'r adroddiad byw, gweledol am dlodi, newyn, gorthrwm, rhyfel, difrodiad amgylchedd, effaith yr "ôl troed carbon". O gyfforddusrwydd ein cartrefi diddos, problem i eraill ydyw, onide. Nid yw'n berthnasol i ni.

Tybed? Onid yw esgid cyfalafiaeth a materoldeb yn dechrau gwasgu ar y byd "datblygedig" a dirwasgfa economaidd ar y gorwel yn sgil trachwant marchnadoedd arian a phrisiau cynyddol tanwydd a bwydydd – heb anghofio effaith gwresogi hinsoddol byd-eang ar y gallu i ddarparu cynnyrch digonol i ddiwallu anghenion ar gyfer poblogaeth sy'n cynyddu'n aruthrol gyflym. Bu i Ban Ki-moon, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, ddatgan yn y gynhadledd i drafod yr argyfwng bwyd byd-eang yn Rhufain yn ddiweddar, fod angen cydio yn y cyfle hanesyddol i adfywio amaethyddiaeth ac y byddai'n rhaid cynyddu cynhyrchu 50% erbyn 2030 – llai na chwarter canrif neu o fewn cenhedlaeth. Mae'r argyfwng presennol, meddai, yn golygu bod 100 miliwn o bobl yn newynu a phrisiau cynyddol am fwydydd sylfaen megis reis yn anfforddadwy i drigolion y gwledydd hynny lle mae'n brif gynhaliaeth.

Eto, yn y byd sydd ohoni rydym oll ymhleth, yn ddibynnol ar ein gilydd. Mae'r Barch Beti-Wyn James yn ein hatgoffa i Martin Luther King ddweud y byddwn, cyn gorffen ein brecwast unrhyw fore, wedi dibynnu ar hanner y byd! Noda hi ymhellach mai cynhyrchwyr bwyd a ffermwyr o'r gwledydd tlotaf sy'n cynhyrchu llawer o'r bwyd y byddwn yn ei fwyta'n

## "Dathlu, Hwyl a'r Heddlu"

Unwaith eto cafwyd gweithgareddau amrywiol iawn drwy dymor y Gwanwyn, gyda nifer dda o ieuenctid yr ofalaeth yn parhau i gyfranogi.

Egino diddordeb "Master Chef" y dyfodol wnaeth noson agoriadol y tymor yn Nhal-y-bont pan fwynhawyd noson "gyda phinsied o halen".

Daeth cyfeillion o Goleg y Bala unwaith eto i'n diddori gyda gêmau gwahanol a chawsom y cyfle i fyfyrio yn eu cwmni.

Yn dilyn llond plateau o gawl blasus dathlwyd Gŵyl Ddewi pryd y bu Lyn Léwis Dafis eto'n herio'n gwybodaeth mewn cwis diddorol ac addysgiadol a brofodd fod meddyliau hyblyg yr ieuainc yn drech na'r hynafgwr! Diolch i'r caredigion a drefnodd y noson ac a ddarparodd y lluniaeth – yn arbennig y Fns Heulwen Lewis a'r Fns Aeronwy Lewis o Gapel Bangor a fu eto'n coginio'r cawl.

Da adrodd na chadwyd neb yn y ddalfa wrth ymweld â Swyddfa'r Heddlu yn Aberystwyth. Tywysodd yr Heddwas Hefin Jones yr aelodau gan ddangos celloedd, systemau camerâu a'r cerbydau a ddefnyddir gan yr heddlu. Noson hynod ddiddorol a agorodd ein llygaid i ystod cyfrifoldebau'r gwasanaeth arbennig hwn sy'n ceisio gwarchod ein buddiannau.

Yn Horeb, Penrhyn-coch, i gloi'r tymor trefnwyd noson o gystadlaethau gêmau bwrdd o bob math.

Gyda thymor yr haf o'n blaen anogwn aelodau unwaith eto i gefnogi'r gweithgareddau a ddarperir.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Dewi Hughes, Ysgrifennydd gweithgar Gweithgor Os Mêts, am ei lafur diflino a chydwybodol gyda'r gweithgaredd pwysig hwn, a hefyd i'r Gweinidog am ei arweiniad a'i gefnogaeth gyson.

Os oes ieuenctid yn eich eglwys chi neu yn eich ardal a allai fod â diddordeb, beth am wneud ymdrech arbennig i annog mwy ohonynt i ymuno yng ngweithgareddau Os Mêts – byddent yn siŵr o fwynhau'r amrywiol brofiadau a'r cyfle i gymdeithasu mewn awyrgylch Gristnogol.

**LLYTHYR AGORED GAN Y BUGAIL AT IEUENCTID EGLWYSI'R OFALAETH**

Gair yn fyr ond yn ddiffuant i'ch gwahodd yn gynnes iawn i fynychu cyfres o gyfarfodydd ar gyfer pobl ifainc yr ofalaeth sydd i'w cynnal, ar y cyd â gofalaeth Capel y Morfa, Aberystwyth, ym misoedd Ebrill a Mai eleni.

Pwrpas y cyfarfodydd yw trafod ystyr a phwrpas bod yn Gristion heddiw gyda'r posibilrwydd o'ch cael efallai i ddod yn gyflawn aelod yn eich eglwys leol maes o law. Hyd yn oed os nad ydych yn dymuno ymaelodi ar hyn o bryd, byddwn yn falch pe medrech ddod i'r cyfarfodydd ac uno yn y drafodaeth. Y mae'r cyfarfodydd yn agored i unrhyw berson ifanc sydd rhwng 15 a 25 mlwydd oed. Beth am gysylltu â mi ymlaen llaw os oes gennych ddiddordeb?

Cynhelir y cyfarfodydd fel a ganlyn:

Nos Lun, 20 Ebrill: Capel y Garn, 7 o'r gloch

Nos Lun, 27 Ebrill: Capel y Morfa, 7 o'r gloch

Nos Lun, 11 Mai: Capel y Garn, 7 o'r gloch

Nos Lun, 18 Mai: Capel y Morfa, 7 o'r gloch

Gobeithio'n fawr y bydd modd i chi ystyried y gwahoddiad ac edrychaf ymlaen i'ch gweld yn y cyfarfodydd.

Yn ddiffuant,

***Wyn Morris***

## *Y Gerlan*

Ers rhai misoedd rydym wedi bod yn addoli yn y festri, tra bod y capel yn cael ei drwsio a'i harddu. Rydym wedi bod yn hynod gyfforddus yn y festri, ond edrychwn ymlaen at ddychwelyd i'r capel cyn bo hir.

Yn ôl ein harfer cafwyd gwasanaeth cydenwadol ar Ionawr 9fed. Paratowyd y gwasanaeth gan y Parch. Richard Lewis, gydag aelodau'r eglwysi yn cymryd rhan.

Nos Sul, 1af Chwefror, croesawodd y Parch. Wyn Morris dri aelod newydd, sef Mr a Mrs Islwyn Jones, a'r ferch, Mrs Delyth Pryce Jones, yn aelodau yn y Gerlan. Maent eisioes wedi bod yn nodedig o ffyddlon ers symud i'r Borth o Gapel Hendre, ger Rhydaman.

**Y Gymdeithas**
Mis Ionawr daeth Linda Griffiths i'n diddori gyda'i chanu gwerin hyfryd yn ogystal â chanu plygain, a soniodd hefyd am ei hardal enedigol yn Sir Drefaldwyn.

Yna, ym mis Chwefror cawsom ddarlith gan y Dr Russell Davies, Aberystwyth, ar 'Agweddau ar Hanes Cymdeithasol Cymru'. Cafwyd trafodaeth ddifyr yn dilyn y ddarlith hynod ddiddorol hon.

I gloi tymor y Gymdeithas, dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda chinio yn Llety Parc. Y gŵr gwadd eleni oedd y Prifardd-Archdderwydd Dic Jones, a roddodd i ni noson i'w chofio.

**Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd**
Tro ein ffrindiau o Eglwys-fach oedd trefnu'r gwasanaeth eleni, a chymerwyd rhan yn ychwanegol gan chwiorydd y Gerlan ac Eglwys Sant Mathew. Rhoddwyd yr anerchiad gan y Barch. Enid Morgan, Aberystwyth. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan chwiorydd Cristionogol Papua Guinea Newydd, ar y thema 'Yng Nghrist y mae aelodau lawer ond ond un corff'. Cafwyd bendith o neges y gennad, ac o fod yn rhan o'r cylch gweddi byd-eang.

## *Estyn Dwylo*

Nid wyf fi yn berson byrbwyll – cyn ysgrifennu pwysaf a mesur – a ran amlaf fe adawaf i'r funud fynd heibio. Ond, wrth glywed am ragoriaethau y we mewn capeli, ac wrth gwrs yn yr oes fodern yma dyma linyn bywyd y mwyafrif o bobl bellach – ac mae eu hyblygrwydd wrth ddelio â'r cyfrwng yma yn fy synnu – fel person anllythrennog y we. Pan gyrhaeddais i Bow Street dros bum mlynedd yn ôl, doeddwn i yn adnabod neb ond Vernon. A'r bore Sul wedi inni briodi, mynd i Gapel y Garn, a dyma ddyn a'r wyneb a'r wên mwyaf hynaws yn croesi o ben draw y Sêt Fawr, ac yn estyn ei ddwylaw, a chydio yn dynn yn fy nwylaw i, yn gynnes glyd a dweud: "Falch eich gweld chi yma – mor falch eich gweld chi." A bob Sul yn ddi-feth hyd ei farw dyna'r drefn gyda Mr Richard Bennett – gwasgu llaw a gwên. Ac fe ddes i i'r casgliad fod fy llinynnau wedi disgyn ar le hyfryd iawn. Oes, mae yna le i'r we, ond all y we fyth fyth gymryd lle y gŵr annwyl o Gristion a brofodd i mi fod estyn llaw gynnes yn gwneud gwaith Crist ar y ddaear heddiw yn rhywbeth byw, real.

*Dilys Baker-Jones*

Rhwng 18 a 30 oed?

**cenhadaeth**

cwm europe

Oes gen ti ddiddordeb mewn
gwaith cymunedol

**gwirfoddoli**

***Tyrd i weld ...***

*Cenhadaeth: Amhosibl?*

Tŷ'r Genhadaeth, Amsterdam

Gwener, 15 Mai – Sul, 17 Mai

Am fwy o fanylion a ffurflen gais, cysyllta â
meryl_walters@yahoo.co.uk / swyddfa.office@ebcpcw.org.uk

***Tyrd i weithio ar brosiect ...***

*Cenhadaeth: Amhosibl?*

yn Hwngari

10–31 Gorffennaf 2009

Am fwy o fanylion a ffurflen gais, cysyllta ag
aledifan@btinternet.com / swyddfa.office@ebcpcw.org.uk

## *Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth*



Hyfryd oedd gweld cynulleidfa luosog wedi dod ynghyd o holl eglwysi'r ofalaeth i Gapel y Garn bore Sul, 1 Mawrth, i wasanaeth arbennig a drefnwyd gan ein Gweinidog i ddathlu Gŵyl Ddewi.



**_Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion_**

**_Dydd Sul, 10 Mai 2009_**

**_yng Nghapel Bethel, Aberystwyth_**
**_am 10 a 5.30 o'r gloch_**

**_Arweinydd: Mrs Carol Davies_**

**_Trefn y Rihyrsals_**

Nos Fercher, 25 Mawrth: Seion, Aberystwyth

Nos Fercher, 1 Ebrill: Y Garn, Bow Street

Nos Fercher, 8 Ebrill: Horeb, Penrhyn-coch

Nos Fercher, 22 Ebrill: Morfa, Aberystwyth

Nos Fercher, 29 Ebrill: Bethel, Tal-y-bont

Nos Fercher, 6 Mai: Bethel, Aberystwyth

Bydd pob rihyrsal yn dechrau am 7 o'r gloch

*Dewch i gefnogi*

**_Rhwyd-waith: e-fwletin Eglwys Bresbyteraidd Cymru_**

E-bost misol yw'r bwletin – mae'n cynnwys newyddion, dolenni i hanesion yn y cyfryngau a gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Y cwbl yn rhad ac am ddim!

Os hoffech dderbyn yr e-fwletin misol, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost i Ysgrifennydd eich Eglwys, a fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth i Swyddog Cyfathrebu EBC.

Ni rennir eich manylion gydag eraill. Mae dad-danysgrifio yn rhwydd ac yn syml.

**_Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth_**



Er mwyn ceisio rhoi cyfle i fwy o bobl fynychu'r Astudiaeth Feiblaidd, bydd yn cael ei chynnal yn y prynhawn yn ogystal â gyda'r nos yn ystod y misoedd nesaf, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 21 Ebrill | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 30 Ebrill (Nos Iau) | Rehoboth | 7 o'r gloch |
| 5 Mai | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 12 Mai | Capel Seion | 7 o'r gloch |
| 19 Mai | Y Garn | 2 o'r gloch |
| | Hanner tymor | |
| 2 Mehefin | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 9 Mehefin | Madog | 7 o'r gloch |
| 16 Mehefin | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 23 Mehefin | Y Garn | 7 o'r gloch |
| 30 Mehefin | Y Garn | 2 o'r gloch |
| 7 Gorffennaf | Gerlan, Borth | 7 o'r gloch |

Noder y bydd y wers a gyflwynir yn y prynhawn yn y Garn yn cael ei hailgyflwyno yr wythnos ganlynol yn y nos.

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / Elystan Morgan*

5 Te Blynyddol Bethlehem
yn ysgoldy Bethlehem, Llandre
am 6.30 o'r gloch

**7** Aled Lewis Evans
Cynulleidfa Noddfa'n cydaddoli yn y Garn

8 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch

**14** Huw Roderick
Steffan Jones

**21** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**28** Parchedig J R Jenkins
Parchedig Ddr John Tudno Williams

Gŵyl Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion
yng nghwmni Euros Lewis
Neuadd Ponthydfendigaid am 2 o'r gloch

## Ebrill

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

1 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
'Ffagl Gobaith' – Dana Edwards
am 2.30 o'r gloch

2 Pwyllgor yr ysgol Sul am 7 o'r gloch

**5** *Sul y Blodau*
Parchedig J R Jenkins
Parchedig Raymond Jones



7 Gweithgor Ymgynghorol 'Os Mêts'
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

10 *Gwener y Groglith*
Oedfa gymun yr ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch



**12** *Sul y Pasg*
Oedfa gymun yr ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
yn y Garn am 10 o'r gloch



**19** Bugail

**26** Dr Terry Edwards

### *Swyddogaethau newydd*

Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mr Vernon Jones am wirfoddoli i ymgymryd â swydd Goruchwyliwr y Fynwent, i olynu Mr Eddie Jones. Mae Vernon wedi rhoi blynyddoedd maith o wasanaeth i'r Eglwys drwy gyflawni swydd allweddol Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, ac mae'n briodol cydnabod ei gyfraniad arbennig gyda'r gwaith hwn.

Olynydd Mr Vernon Jones fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau yw Mr Eddie Jenkins – yntau hefyd eisoes wedi gwasanaethu'r Eglwys fel Ysgrifennydd am nifer o flynyddoedd, ac rydym yn ddiolchgar iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith hwn.

### *Ailddodrefnu'r festri*

Yn ystod y misoedd nesaf, gobeithir mynd ati i ddiddosi'r ddwy festri drwy brynu dodrefn newydd addas i'r ysgol Sul, yn ogystal â chadeiriau newydd i'r rhai sydd ychydig yn hŷn.

Dymuna'r swyddogion fynegi eu diolchgarwch diffuant i Gronfa Eleri / Amgen, sydd wedi cyfrannu nawdd o £1,630 fel cyfraniad tuag at y gost.

Yr ydym hefyd yn ddiolchgar i'r un gronfa am nawdd o £600 tuag at brynu storfa ar gyfer ysgoldy Bethlehem, Llandre.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da:

I Manon Wyn a Gwion James ar enedigaeth mab bach, Ianto Jac, ar 6 Chwefror, ac i Wynne Melville a Linda Jones ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf.

## Mai

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**3** Miss Beti Griffiths
Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch

**10** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel Bethel, Aberystwyth,
am 10 a 5.30 o'r gloch

15 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**17** Oedfa Cymorth Cristnogol
i holl eglwysi'r ofalaeth
a chapel Noddfa yn y Garn
am **10.30** o'r gloch
dan arweiniad y Bugail
Cinio Bara a Chaws yn dilyn y gwasanaeth
– croeso cynnes i bawb

**24** Yr Athro Alwyn Roberts

**31** *Sul y Pentecost*
Parchedig Wiliam Owen



*… ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwynt oll â'r Ysbryd Glân.* Actau 2:2–4